# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1A, Neuadd Y Sir, Ruthun, Dydd Iau, 24 Hydref 2019 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Rachel Flynn, Tina Jones, Merfyn Parry, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Graham Timms (Is-Gadeirydd), Cheryl Williams a/ac Huw Williams (Cadeirydd)

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB); Swyddog Arweiniol – Eiddo Corfforaethol a'r Stoc Dai (DL); Rheolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (AL), Pennaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol (TW); Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu (TD); Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (AS); Rheolwr Tîm Gwybodaeth Busnes (CB); Cydlynydd Craffu (RhE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (HB)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Anton Sampson.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorwyr canlynol gysylltiadau personol:

Eitem 4 ar y rhaglen, cofnodion y cyfarfod blaenorol: Mae'r Cynghorwyr Brian Blakeley a Meirick Lloyd Davies yn cynrychioli'r Cyngor ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Eitem 5 ar y rhaglen, Darpariaeth Safle Sipsiwn a Theithwyr yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd: Cynghorwyr Tina Jones a Merfyn Parry.

## 3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw fater brys.

Dywedodd y Cadeirydd mewn ymateb i gais gan swyddogion, a gyda chytundeb pawb dan sylw, ei fod wedi caniatáu i eitemau 6 a 7 ar drefn busnes y Pwyllgor gael eu hail-drefnu. Gan hynny, ymdrinnir â Phrosiect Archifau Sir Ddinbych a Sir y Fflint ar y cyd fel eitem rhif 6 a Dyluniad y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Newydd Arfaethedig yn eitem rhif 7 ar y rhaglen.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 5 Medi, 2019.

Diolchodd y Cynghorydd Merfyn Parry i'r swyddogion am adroddiad Tân Mynydd Llantysilio.

Dywedodd y Cydlynydd Craffu (CC) bod yr Awdurdod Tân ac Achub wedi gofyn i gael mynychu cyfarfod craffu cyn 2020 i drafod ei ymgynghoriad cyhoeddus ar ddatblygu Strategaeth Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Dywedodd y byddent yn mynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, ond roedd croeso i aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedol fynychu.

***PENDERFYNWYD: derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 5 Medi 2019 fel cofnod cywir.***

## 5 DARPARIAETH SAFLE SIPSIWN A THEITHWYR YN Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel adroddiad ac atodiadau (eisoes wedi'u cylchredeg) a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y broses a ddilynwyd er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran darparu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn y sir.  Roedd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar safleoedd a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Grŵp Rheoli Asedau a'r Grŵp Cynllunio Strategol i'w hargymell i'r Cabinet i'w cynnwys ym mhroses y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd fel safleoedd posibl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.
Yn ystod eu cyflwyniad, rhoddodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion drosolwg i'r Pwyllgor o'r dyletswyddau statudol a osodir ar y Cyngor i ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr.  Yng ngoleuni'r ffaith bod angen wedi'i nodi yn y sir trwy'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr a gymeradwywyd yn ffurfiol gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru yn 2017.  Hefyd, cafwyd amlinelliad o'r broses ddilynol i ddewis safleoedd posibl at ddibenion preswyl a thramwy, nifer y lleiniau sy'n ofynnol i safleoedd preswyl a thramwy ac atgoffwyd aelodau bod y Cabinet wedi penderfynu ym mis Mawrth 2019 mai'r lleoliad a ffefrir ar gyfer y safle preswyl chwe llain fyddai Green Gates (dwyrain) ger Llanelwy.  Wrth gytuno ar y safle hwn fel lleoliad a ffefrir ar gyfer safle preswyl, roedd y cabinet hefyd wedi cytuno y dylid dyrannu safleoedd posibl ar gyfer y safle tramwy pum llain fel rhan o broses y CDLl newydd, ac na ddylid ystyried Green Gates (dwyrain) ar gyfer safle tramwy, a dyna'r rheswm dros gyflwyno'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor.
Ynghlwm wrth yr adroddiad oedd copi o adroddiad a gyflwynwyd yng nghyfarfod briffio'r Cabinet ar 9 Medi 2019 yn amlinellu'r broses y bwriedir ei dilyn er mwyn symud ymlaen â safleoedd tramwy posibl i Sipsiwn a Theithwyr i'w cynnwys yn y CDLl newydd, ynghyd â chopi o adroddiad yn nodi safleoedd tramwy posibl i Sipsiwn a Theithwyr a gyflwynwyd i'r AMG ar 30 Medi 2019.  Roedd yr ail adroddiad yn cynnwys manylion am y darnau perthnasol o ddeddfwriaeth a oedd yn gosod dyletswydd statudol ar y Cyngor i asesu'r angen am ddarpariaeth fel hyn, a darparu safleoedd yn ôl yr angen.  Atodiadau a gynhwyswyd gyda'r adroddiad hwnnw oedd:

- manylion y meini prawf adolygu safleoedd dechreuol
- gwybodaeth yn gysylltiedig â'r dadansoddiad safle ac argymhellion o ganlyniad i hynny, ynghyd â manylion yr ystyriaeth bellach a roddir i'r safleoedd hynny ar y rhestr fer ac ymateb yr Adran Brisio ac Ystadau ynglŷn

â'r posibilrwydd o golli tir amaethyddol a phroblemau posibl yn ymwneud â chyflwyno hysbysiadau terfynu i denantiaid

Cadarnhaodd swyddogion bod yr holl safleoedd a ystyriwyd yn y gorffennol fel rhan o'r ymarfer darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr gwreiddiol, yn cael eu hystyried eto. Gan nad oedd unrhyw dirfeddianwr wedi dod ymlaen i gynnig tir ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, fel rhan o broses y galwad dechreuol am dir ar gyfer safle Sipsiwn a Theithwyr nac fel rhan o ymarfer tebyg o dan broses y CDLl newydd, roedd y Cyngor wedi cyflwyno nifer o safleoedd yr oedd yn berchen arnynt i'r diben hwn, gan fod angen iddo ddangos i Lywodraeth Cymru ei fod yn ymdrechu i gyflawni ei rwymedigaethau statudol. Dyna pam y cynhwyswyd tir amaethyddol a mannau agored cyhoeddus dynodedig fel safleoedd posibl i'w cynnwys yn y CDLl newydd i'r diben hwn, gan fod proses y CDLl yn gyfle i'r Cyngor newid dynodiadau tir presennol.
Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y Grŵp Rheoli Asedau yn ei gyfarfod ar 30 Medi wedi rhoi cefnogaeth i gynnwys y pedwar safle a gyflwynwyd i'w hystyried sef:

- Rhuallt – tir ger Ffordd Treffynnon
- Rhuallt – hen gae'r ysgol
- Dinbych, Ffordd Henllan – Safle 1
- Dinbych, Ffordd Henllan – Safle 2

Yn ogystal, gofynnwyd am gynnwys safle arall yn Rhuallt, sef tir ger B5429 (rhan o Bant Ifan Newydd gynt), fel safle posibl hefyd.
Pwysleisiodd y Swyddogion, pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo cyflwyno unrhyw un o'r safleoedd posibl neu bob un ohonynt i'w hystyried yn y CDLl newydd, byddai llawer iawn o waith manwl yn ofynnol cyn i unrhyw un ohonynt gael eu cynnwys yn y CDLl newydd terfynol mabwysiedig. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd rhai neu bob un ohonynt yn methu â chyflawni'r meini prawf cynhwysiant yn y pen draw. Pe bai'r Cabinet yn penderfynu eu cynnwys yn y CDLl newydd a archwilir gan y cyhoedd, esboniodd y ddau y byddai cymeradwyaeth y Cyngor Sir yn cael ei geisio i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y CDLl a archwilir gan y cyhoedd. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, byddai cymeradwyaeth y Cyngor yn cael ei geisio i gyflwyno'r ddogfen i'r LIC a'r Arolygiaeth Gynllunio i'w harchwilio'n gyhoeddus. Byddai'r Archwiliad Cyhoeddus yn gyfle i unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n gwrthwynebu unrhyw beth yn y CDLl i roi tystiolaeth i arolygydd annibynnol. Ar ôl i adroddiad terfynol yr Arolygydd gael ei gyhoeddi, byddai cymeradwyaeth y Cyngor yn cael ei geisio i fabwysiadu'r CDLl.
Mewn ymateb i gwestiynau gan Gadeirydd y Pwyllgor, cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion:

- y byddai'r CDLl presennol yn dod i ben ar ddiwedd 2021. Pe na bai CDLl newydd yn cael ei fabwysiadu erbyn y dyddiad hwnnw byddai polisïau cynllunio cenedlaethol yn gorchfygu.

  Byddai hynny'n golygu bod polisïau a dyraniadau lleol h.y. mewn perthynas â thai fforddiadwy a ffiniau datblygiadau yn darfod ac ni fyddai modd eu defnyddio wrth ystyried ceisiadau cynllunio. Byddai penderfyniadau cynllunio lleol yn cael eu pennu yn seiliedig ar bolisïau cenedlaethol ac nid rhai lleol;

- hysbyswyd aelodau lleol sy'n cynrychioli wardiau'r Cyngor a oedd yn cynnwys safleoedd arfaethedig i'w datblygu fel safleoedd Sipsiwn a Theithwyr o'r cynigion cyn cyfarfod y Grŵp Rheoli Asedau

Pwysleisiodd swyddogion nad oedd cynnwys safleoedd posibl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn y CDLl Newydd yn cyfateb i'r safleoedd hynny a oedd yn cael eu datblygu i'r diben hwnnw, gan y byddai'n rhaid iddynt barhau i fod yn destun proses ceisiadau cynllunio'r awdurdod lleol, a gan hynny gellid eu gwrthod yn y cam hwnnw.

Cafodd aelodau lleol wardiau'r Cyngor a oedd yn cael eu hystyried ar gyfer gosod safleoedd posibl gyfle i godi pwyntiau a holi cwestiynau i'r Aelod Arweiniol a'r swyddogion. Mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd a'r pryderon a gyflwynwyd gan y cynghorwyr ar gyfer ward Dinbych Uchaf a Henllan, fe wnaeth yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion:

- gadarnhau nad oedd ymgynghoriad wedi'i gynnal gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr ynghylch y safleoedd posibl arfaethedig eto.
  Ar y cyd â'u grwpiau eirioli, byddent yn cael cymryd rhan mewn ymgynghoriad ynghylch safleoedd posibl trwy broses y CDLl Newydd;
- dweud bod dau 'alwad am dir' ar wahân wedi cael eu gwneud i dirfeddianwyr er mwyn diwallu'r angen a nodwyd am Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.
  Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dirfeddianwyr wedi cysylltu â'r Cyngor i awgrymu tir i'r diben hwn. Yn ogystal, cysylltwyd â phob cynghorydd a Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn gofyn am awgrymiadau o dir addas ond ni chafwyd unrhyw beth o gwbl. Yn y gorffennol roedd y Cyngor wedi cysylltu â thirfeddianwyr gyda'r bwriad o brynu tir i'r diben hwn, ond nid oedd yr un ohonynt yn barod i werthu tir i'r Awdurdod, a dyna pam yr oedd y Cyngor ei hyn yn cyflwyno rhywfaint o'i dir ei hun i'w gynnwys o bosibl i ddangos i LlC bod ganddo gynnig realistig a chyraeddadwy yn ei CDLl newydd er mwyn diwallu'r angen a nodwyd;
- cadarnhau nad oedd tenantiaid presennol y tir a oedd yn perthyn i'r Cyngor a gyflwynwyd wedi cael eu hysbysu nac wedi bod yn rhan o ymgynghoriad ynghylch y cynnig cyn cyfarfod y Grŵp Rheoli Asedau hyd yma gan nad oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud eto ynglŷn â p'un a ddylid cynnwys y tir fel safle posibl.
  Y rheswm am hynny oedd y posibilrwydd na fyddai'r Grŵp Rheoli Asedau yn cytuno â'u cynnwys felly gallai hysbysu tenantiaid o flaen llaw achosi straen a phryder di-angen iddyn nhw. Er bod y Grŵp Rheoli Asedau yn cytuno y dylid cynnwys y safleoedd ar y rhestr o safleoedd posibl, gofynnodd hefyd am gael ychwanegu safle arall yn Rhuallt at y rhestr o safleoedd posibl, gan ddod â chyfanswm y safleoedd posibl i'w cynnwys i bump;
- dweud mai'r prif lwybr a ddefnyddiwyd gan Sipsiwn a Theithwyr i mewn ac allan o Sir Ddinbych oedd yr A55. O ganlyniad roedd y rhan fwyaf o wersylloedd diawdurdod wedi digwydd mewn ardaloedd arfordirol i'r gogledd o'r A55. Y rheswm posibl am hynny yw bod y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn gallu dod o hyd i ddigon o waith yn y rhan honno o'r sir;
- cadarnhau bod grant LlC tuag at gostau darparu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr awdurdodedig ar gael ar hyn o bryd tan ddiwedd 2021. Pe bai'r Cyngor yn cymeradwyo'r safleoedd ac yn derbyn caniatâd cynllunio, gallai'r

Awdurdod gyflwyno cynnig am unrhyw gyllid sydd ar gael tuag at ddatblygu'r safleoedd;

- dweud y disgwylir i ddigon o le fod ar gael mewn ysgolion yn yr ardaloedd arfaethedig i ddarparu ar gyfer nifer y plant o safle tramwy pe bai’r angen yn codi;
- cadarnhau bod oddeutu 15 o wersylloedd diawdurdod yn digwydd yn Sir Ddinbych bob blwyddyn;
- pwysleisio bod yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) a gynhaliwyd gan y Cyngor yn ofyn cyfreithiol o dan Adran 102 Deddf Tai (Cymru) 2014. O ganlyniad i’r asesiad hwn yn Sir Ddinbych mae’r angen am safle preswyl a safle tramwy wedi’u nodi.
  O ganlyniad, mae Adran 103 y Ddeddf uchod yn mynnu bod y Cyngor yn gwneud darpariaeth i ddiwallu’r angen a nodwyd.

Dywedodd yr aelod lleol dros Dremeirchion bod:

- Rhuallt yn gymuned wledig fach gerllaw Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, lle nad oedd llawer o wasanaethau nac amwynderau lleol.
  Nid oedd siop nac ysgol yn y pentref bellach, nid oedd gwasanaeth bws yno chwaith, dim ond gwasanaeth bws-tacsi ddwywaith yr wythnos;
- roedd yr ysgol gynradd agosaf yn Nhremeirchion, gydag ychydig iawn o leoedd dros ben ar hyn o bryd ac mae’n ysgol cyfrwng Cymraeg;
- roedd safle hen gae’r ysgol yn Rhuallt, a oedd yn gynwysedig ar y rhestr o safleoedd posibl, yn amwynder i blant a theuluoedd lleol ar hyn o bryd ac roedd newydd gael ei ailwampio gydag offer chwarae newydd o’r radd flaenaf.
  Fel cae chwarae roedd yn cael ei warchod rhag datblygiad o dan y CDLl presennol fel man agored cyhoeddus;
- roedd y tir ger B5429 yn Rhuallt ger hen ddaliad amaethyddol y Cyngor, Pant Ifan Newydd, ac roedd y Cyngor wedi gwerthu’r ffermdy a’r ysgubor am swm mawr o arian i unigolion a oedd wedi’u trosi yn gartrefi yn ddiweddar.
  Roedd perchnogion yr adeiladau hyn wedi cael eu harwain i gredu y byddai’r tir gerllaw eu heiddo yn cael ei ddatblygu at ddibenion preswyl yn y pen draw, nid fel safle tramwy i Sipsiwn a Theithwyr. Byddai datblygiad fel hyn yn cael effaith andwyol ar werth eu heiddo. Ar ochr arall y B5429 roedd nifer o fusnesau a oedd yn cyflogi dros 100 o bobl rhyngddynt. Pe bai’r darn penodol hwn o dir yn cael ei ddatblygu fel darpariaeth tramwy i Sipsiwn a Theithwyr yn y pen draw, gallai gael effaith ddifrifol ar y busnesau hyn a bywoliaeth nifer fawr o bobl;
- dim ond traean o hen safle’r lladd-dy ger Ffordd Treffynnon oedd Cyngor Sir Ddinbych yn berchen arno.
  Roedd y tir ar y safle hwn yn cynnwys lefelau uchel o halogiad, gan gynnwys gwastraff gwenwynig a gwastraff clwyf y traed a’r genau, a byddai hyn oll yn ychwanegu at gostau paratoi’r safle i’w ddatblygu. Roedd materion hawliau tramwy hefyd yn gysylltiedig â’r safle fel yr amlinellir mewn llythyr gan gymydog a ddarllenwyd yn y cyfarfod. Hefyd, credwyd bod LlC yn ffafrio’r safle penodol hwn i’w ddatblygu fel safle ailgylchu Cynnyrch Hylendid Amsugnol;

- gan mai dim ond am oddeutu 8 milltir y mae’r A55 yn mynd trwy Sir Ddinbych, a gan ei bod mor hawdd cael mynediad at y briffordd a'r lleoliadau, roedd Rhuallt a Llanelwy dan anfantais anghymesur o ran nifer y mathau hyn o ddatblygiadau a oedd yn cael eu cyflwyno ar gyfer yr ardal.

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau’r Pwyllgor, gwnaeth yr Aelod Arweiniol a swyddogion:

- gadarnhau oherwydd bod ‘angen’ wedi’i nodi am safle Sipsiwn a Theithwyr tramwy yn y sir, byddai CDLl y Cyngor yn wynebu'r perygl o gael ei wrthod gan LlC pe na bai’n cynnwys safleoedd arfaethedig i’w datblygu i’r diben hwn.
  Pe bai hynny’n digwydd, pwysleisiwyd y byddai’n rhaid i’r Cyngor wedyn gadw at bolisïau cynllunio cenedlaethol wrth bennu ceisiadau cynllunio, waeth beth fo’r angen neu’r dewisiadau yn lleol;
- dweud os yw awdurdod lleol wedi nodi angen am safle preswyl a/neu safle tramwy i Sipsiwn a Theithwyr fel rhan o’i GTAA, roedd ganddynt ddyletswydd rwymedig i ddatblygu'r safleoedd hynny o fewn ffiniau'r sir, waeth beth fo'r argaeledd o unrhyw ddarpariaeth debyg mewn ardaloedd awdurdod lleol cyfagos;
- cadarnhau bod gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) safle preswyl eisoes, ac roedd mewn sefyllfa debyg i Sir Ddinbych o ran nodi safleoedd i ddiwallu anghenion tramwy.
  Roedd gan Sir y Fflint eisoes nifer o safleoedd preswyl yn ardal y Fflint. Yn ddiweddar roedd wedi nodi lleoliad yn yr un ardal ar gyfer datblygiad posibl fel safle tramwy;
- dweud, er bod y Grŵp Rheoli Asedau wedi dangos ei fod yn ffafrio gweld hen safle'r lladd-dy ger Ffordd Treffynnon, Rhuallt yn cael ei droi yn safle gwastraff cynnyrch hylendid amsugnol (AHP), roedd hefyd wedi rhoi cyfarwyddyd y dylid parhau i archwilio’r posibiliadau o’i droi yn safle tramwy i Sipsiwn a Theithwyr, rhag ofn i’r safle AHP fethu â dwyn ffrwyth.
- cadarnhau bod risg mewn perthynas â’r tir ger Pant Ifan Newydd yn Rhuallt oherwydd pe bai’r lleoliad yn cael ei gynnwys yn y CDLl Newydd i’w ddatblygu fel safle tramwy posibl i Sipsiwn a Theithwyr, byddai gwerth cyfalaf y tir gweddilliol yno a oedd â photensial at ddibenion datblygu preswyl yn gostwng yn sylweddol;
- dweud mewn perthynas â rhai o’r safleoedd arfaethedig bod angen cael cydbwysedd rhwng cost a budd a gwerth/dibrisiad asedau h.y. yn safle’r hen ladd-dy roedd cyllid sylweddol ar gael gan LlC er mwyn gwneud gwaith i adfer y safle.
  Pa bynnag gyfleuster a fyddai’n cael ei ddatblygu ar y safle hwnnw yn y pen draw, byddai’n rhaid gwneud gwaith adfer yno;
- dweud, pe na bai unrhyw un o’r pum safle posibl sy’n cael eu cynnig i’w cynnwys yn y CDLl Newydd at ddibenion safle Sipsiwn a Theithwyr, yn cael eu hystyried yn addas ar ôl gwneud gwaith ymchwil pellach, byddai'r broses o nodi safleoedd posibl yn ailddechrau;
- cadarnhau bod safle hen gae’r ysgol yn Rhuallt yn cael ei warchod fel man agored o dan y CDLl presennol.

Fodd bynnag, gyda datblygiad y CDLl Newydd byddai cyfle i'r Cyngor adolygu'r holl ddyraniadau presennol pe bai'n teimlo bod hynny'n angenrheidiol. Gallai wneud hynny pe bai'n amnewid dyraniadau blaenorol am ddyraniadau tebyg eraill yn y CDLl newydd;

- dweud bod gan LlC bwerau diofyn (Rhan 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, adran 71) sy'n golygu, pe bai LlC yn credu bod y cyngor yn methu neu'n peidio â gwneud rhywbeth sy'n angenrheidiol mewn perthynas â CDLl, y gallai dynnu CDLl sydd wrthi'n cael ei baratoi o reolaeth yr awdurdod lleol a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol.

  Byddai archwiliad cyhoeddus yn cael ei gynnal a gallai LlC wedyn gymeradwyo eu CDLl fel cynllun datblygu i'r ardal. Pe bai hynny'n digwydd, byddai unrhyw benderfyniadau yn ymwneud â lleoliadau safleoedd ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr a materion eraill yn cael eu cymryd allan o ddwylo cynghorwyr etholedig;

- dweud bod y CDLl presennol yn cynnwys polisi yn seiliedig ar feini prawf i asesu unrhyw gynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, gan nad oedd asesiad GTAA wedi cael ei gwblhau.

  Roedd yr asesiad wedi cael ei gymeradwyo ym mis Ionawr 2017 ac o ganlyniad roedd yr angen am safle preswyl a thramwy wedi cael ei nodi. O ganlyniad, roedd angen i'r Cyngor amlinellu yn ei CDLl Newydd sut yr oedd yn bwriadu diwallu'r anghenion dynodedig hynny;

- cadarnhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych wedi cynnal asesiad o anghenion llety ar y cyd.

  Wrth gynnal yr asesiad roeddent wedi dilyn canllawiau a gyhoeddwyd gan LlC. Er bod yr ymarfer coladu data wedi'i gynnal ar y cyd, roedd y data a gyflwynwyd i LlC wedi bod yn seiliedig ar bob ardal sirol unigol. Roedd LlC wedi craffu'r data a ddarparwyd iddynt ac wedi dangos ei fod yn derbyn y broses a ddilynwyd ac wedi dilysu'r data. O dan reolau Diogelu Data nid oedd y Cyngor mewn sefyllfa i rannu ymatebion unigol a dderbyniwyd i'r asesiad GTAA;

- cadarnhau bod y ddau gyngor yn y broses o wahodd tendrau ar gyfer yr asesiad o anghenion llety nesaf.

  Roedd yr asesiad cymeradwy presennol yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 2021, byddai'r asesiad newydd yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 2033 a oedd yn cyfateb â llinell amser y CDLl Newydd. Byddai'r asesiad newydd yn darparu gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw angen ychwanegol i'r rheiny a nodwyd yn yr asesiad presennol. Ni fyddai'n cymryd lle canfyddiadau'r asesiad presennol a oedd wedi nodi bod angen safleoedd preswyl a thramwy, ac yr oedd y Cyngor yn rhwymedig trwy gyfraith i'w darparu;

- dweud bod yr asesiadau o nodau lles yn yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 yr adroddiad) yn asesiadau ar gyfer y sir gyfan ar hyn o bryd.

  Byddai asesiadau tebyg yn cael eu cynnal fesul safle pe bai unrhyw safleoedd arfaethedig yn cael eu hargymell i'w cynnwys yn y CDLl Newydd pryd bynnag y byddai hynny'n digwydd;

- cadarnhau y daethpwyd i'r casgliad bod y ddarpariaeth ar gyfer pum llain yn ddigonol ar gyfer safle tramwy yn Sir Ddinbych.

  Roedd y ffigwr hwn wedi deillio o nifer a maint y gwersylloedd diawdurdod a oedd wedi bod yn y sir dros gyfnod o 12 mis. Gan hynny, ymddengys bod pum llain yn ddigonol ar hyn o bryd. Pe bai'n dod i'r amlwg dros amser nad

oedd pump yn ddigonol, byddai gwaith pellach yn ofynnol i asesu'r ffordd orau o ddiwallu'r angen hwnnw. Gallai hynny gynnwys ymestyn safle presennol. Byddai unrhyw gynnig felly yn amodol ar y broses ceisiadau cynllunio arferol.

Caniataodd y Cadeirydd i ddau aelod o'r cyhoedd annerch y Pwyllgor ar eu pryderon ynglŷn â lleoliadau'r safleoedd arfaethedig yn eu hardaloedd, un o bob ward Cyngor Sir. Roeddent yn cydnabod yr awgrym bod y Cyngor yn rhwymedig yn unol â'r gyfraith i ddarparu cyfleusterau tebyg a bod mwyafrif y cymunedau wedi mabwysiadu agwedd 'nid yn fy iard gefn i' (NIMBY) tuag at y mathau hyn o ddatblygiadau. Wedi dweud hynny, er bod eu pryderon yn adlewyrchu pryderon aelodau etholedig yn gyffredinol, roeddent hefyd yn tynnu sylw at y posibilrwydd o golli mannau gwyrdd mewn cymunedau gwledig a oedd eisoes heb lawer o amwynderau cyhoeddus ar gael iddynt, colli tir amaethyddol a'r effaith ar fywoliaeth ffermwyr unigol, a'r diffyg seilwaith lleol mewn rhai ardaloedd i gefnogi'r mathau hyn o gyfleusterau.

Cofrestrodd aelod o'r Pwyllgor ei bryderon am natur 'annemocrataidd' Grŵp Rheoli Asedau'r

Cyngor, sydd yn ei farn ef yn ddylanwadol dros ben er gwaetha'r ffaith mai dim ond un aelod etholedig, sef aelod Cabinet, sy'n gwasanaethu arno. Roedd o'r farn y dylai cylch gwaith a rôl y Grŵp gael ei adolygu. Cafodd ei atgoffa gan yr Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod Y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel bod cyfarfodydd y Grŵp ar agor i bob cynghorydd fynychu. Hefyd, gallai unrhyw gynghorydd annerch a herio'r Grŵp am unrhyw gynigion yn eu cyfarfodydd. Yn wir, roedd hyn wedi digwydd yn ystod trafodaeth ar leoliadau arfaethedig Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng nghyfarfod y Grŵp ar 30 Medi, a oedd wedi arwain at ychwanegu pumed safle posibl at y rhestr.

Cafodd cwestiwn ei ofyn ynglŷn â pham bod rhestr o safleoedd arfaethedig i'w defnyddio ar gyfer y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei chyflwyno i'w chynnwys yn y CDLl newydd heb ymgynghori â'r gymuned Roma, Sipsiwn a Theithwyr ymlaen llaw ynglŷn â'r lleoliadau a ffefrir ganddynt, a/neu p'un a oedd unrhyw un o'r safleoedd a oedd yn cael eu hystyried gan y Cyngor yn addas i'r gymuned. Oni ddylent fod yn gysylltiedig â thrafodaethau yn ymwneud â lleoliadau safleoedd posibl mor fuan ag sy'n bosibl?

Tra'n cydnabod bod y broses bresennol hyd yma yn ymddangos yn fwy agored a thryloyw na rhai tebyg a gynhaliwyd yn y gorffennol, holodd yr Is-Gadeirydd a allai'r Cyngor wneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer mwy nag un safle tramwy i Sipsiwn a Theithwyr ar yr un pryd? Dywedodd swyddogion y gellid llunio rhestr flaenoriaeth o safleoedd a ffefrir pe bai angen.

Mewn ymateb i gwestiynau pellach, dywedodd yr Aelod Arweiniol a swyddogion:

- bod y meini prawf a ddefnyddir i asesu addasrwydd safleoedd yr un peth â'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer ymarferion blaenorol.
  Roedd yn cymryd i ystyriaeth gofynion y CDLl a pholisïau LlC ymhlith pethau eraill; a
- tra bo mwyafrif y gwersylloedd diawdurdod yn y sir wedi bod yn ardaloedd y Rhyl a Phrestatyn, sy'n awgrymu ei fod yn ardal a ffefrir gan y gymuned Sipsiwn a Theithwyr, roedd mwyafrif y tir sy'n perthyn i'r Cyngor yn yr ardal honno yn cael ei ystyried yn anaddas i'w ddatblygu i'r diben hwn gan eu bod o fewn ardaloedd llifogydd cydnabyddedig.
  Byddai LlC yn gwrthod cynnwys y safleoedd hynny ar y sail honno.

Dywedodd yr Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, a fyddai'n gyfrifol an y safle(oedd) ar ôl iddynt gael eu datblygu yn y sir, ei fod o'r farn y byddai angen creu llwybrau cenedlaethol i safleoedd tramwy ledled y DU, dan gyfarwyddyd llywodraeth ganolog. Datganodd bod y tymor 'tramwyo' yn gyffredinol yn para rhwng mis Mehefin a diwedd yr hydref bob blwyddyn a bod gan yr Heddlu bwerau i symud gwersylloedd diawdurdod os oedd safleoedd awdurdodedig ar gael ar eu cyfer yn yr ardal awdurdod lleol benodol honno. Roedd ef o'r farn nad oedd pum llain yn ddigon a bod y lleoliadau a oedd yn cael eu cynnig yn anaddas. Dyna pam y dylai llywodraeth ganolog arwain y gwaith o ddatblygu rhwydwaith o safleoedd tramwy wedi'u lleoli'n strategol i ddiwallu anghenion ac ateb gofynion y gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Mynegodd ei farn hefyd y dylai Cyngor Sir Ddinbych weithio'n agos â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ddatblygu safle tramwy. Ar sail y pryderon a godwyd yn y cyfarfod, pe bai safle neu safleoedd tramwy yn cael eu dyrannu yn y CDLl, awgrymodd yr Aelod Arweiniol y byddai'n oedi eu gweithrediad cyhyd ag sy'n bosibl.

Cytunodd aelodau lleol ar gyfer Dinbych Uchaf a Henllan gyda'r Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel nad oedd lleoliadau Ffordd Henllan, Dinbych yn ddelfrydol ar gyfer safle tramwy gan eu bod yn rhy bell i ffwrdd o'r prif lwybr tramwy, nid ydynt yn ddigon agos at amwynderau lleol ac ni fyddent yn darparu sylfaen boblogaeth sy'n ddigon mawr i gefnogi eu cyfleoedd busnes. Oherwydd eu lleoliad, pe bai un o'r safleoedd hyn yn cael eu datblygu i'r diben hwn, byddai risg sylweddol na fyddai'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn ei ddefnyddio.

Cadarnhaodd swyddogion ei bod yn rhwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu lleiniau a oedd yn ddigonol i wasanaethu carafanau teithiol, nid ydynt yn rhwymedig i ddarparu lle i breswylwyr redeg eu busnesau. Cadarnhawyd hefyd nad oedd safleoedd Ffordd Henllan, Dinbych wedi cael eu hystyried yn ystod y broses ddechreuol ar gyfer darparu safle i Sipsiwn a Theithwyr gan mai'r bwriad gwreiddiol oedd gosod y safleoedd preswyl a thramwy yn Green Gates (dwyrain), Llanelwy.

Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Cadeirydd mai pwrpas y drafodaeth yn y cyfarfod presennol oedd ceisio eu harsylwadau i'r broses o symud safleoedd posibl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr trwy'r CDLl ac nid asesu addasrwydd neu ddiffyg addasrwydd safleoedd unigol sy'n cael eu cyflwyno i'w cynnwys yn y CDLl fel safleoedd posibl i'r diben hwn ar hyn o bryd.

Ar ddiwedd trafodaeth fanwl a thrylwyr, pwysleisiodd y Pwyllgor eu pryderon am lymder Rheoliadau LlC sy'n mynnu bod pob awdurdod lleol sydd wedi nodi bod angen Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr preswyl a/neu thramwy yn datblygu'r safleoedd hynny fesul sir ac ar wahân i ddarpariaeth sydd o bosibl eisoes ar gael ac sy'n cael ei danddefnyddio mewn ardal awdurdod lleol cyfagos. Teimlwyd bod y Rheoliadau hyn yn mynd yn groes i'r pwyslais cynyddol y mae LlC yn ei roi ar waith rhanbarthol ac is-ranbarthol er mwyn gwireddu gwerth am arian ac arbedion effeithlonrwydd. Gan hynny, gyda'r mwyafrif o blaid ac un yn ymatal, penderfynodd y Pwyllgor:

***<u>Penderfynwyd:</u> - argymell wrth y Cabinet, cyn penderfynu ar y safleoedd tramwy i'w cyflwyno fel safleoedd i'w symud ymlaen fel Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr posibl yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd, y dylid rhoi sylw i'r materion canlynol -***

***(i) y diffyg ymgynghori â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr a'u grwpiau eirioli ynghylch addasrwydd safleoedd arfaethedig i'w datblygu fel***

***safleoedd ar gyfer eu defnydd penodol cyn eu cynnwys ar restr o safleoedd posibl i'w cyflwyno fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol newydd;***

***(ii) y dylai prosesau ar gyfer nodi a dewis Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr posibl yn y dyfodol fod mor agored a thryloyw ag sy'n bosibl i aelodau a phreswylwyr, gyda chynigion yn cael eu cyflwyno i bob cynghorydd mewn sesiwn friffio i'r Cyngor ac i'r gwasanaeth Craffu i'w harchwilio cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Cabinet am gymeradwyaeth;***

***(iii)bod eglurhad yn cael ei roi ynglŷn â sut y daeth Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych i'r casgliad y byddai safle tramwy â phum llain yn ddigon i ddiwallu anghenion tramwy Sipsiwn a Theithwyr yn y sir;***

***(iv)bod y Cabinet yn ysgrifennu yn y termau cryfaf posibl at Lywodraeth Cymru gan fynegi eu pryderon difrifol am ofynion Rhan 3 Deddf Tai (Cymru) 2014 sy'n gosod rhwymedigaeth ar bob awdurdod lleol unigol i gynnal Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr, ac os nodir yr angen i ddatblygu safle tramwy, bod pob awdurdod unigol yn rhwymedig i ddarparu safle tramwy o fewn ei ffiniau hyd yn oed os oes datblygiadau tebyg yn bodoli neu ar fin cael eu datblygu mewn ardal awdurdod cyfagos. Ymddengys bod y Rheoliadau hyn yn amhriodol ac yn anghymesur i fynd i'r afael ag anghenion y gymuned deithiol a'u bod yn mynd yn groes i ddeddfwriaeth, polisïau a dyheadau eraill Llywodraeth Cymru sy'n hyrwyddo cydweithio effeithiol rhwng awdurdodau ar sail ranbarthol ac is-ranbarthol;***

***(v) nes bo'r materion uchod wedi'u gweithredu a bod adroddiad pellach wedi'i gyflwyno i'r gwasanaeth Craffu, bod penderfyniad ar gynnwys y pum safle a restrir yn yr adroddiad i'w cynnwys fel lleoliadau datblygu posibl ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael eu cadw ar encil;***

***(vi)y diffyg ymgynghori ag aelodau lleol ynghylch y safleoedd arfaethedig o fewn eu wardiau cyn eu cynnwys yn yr adroddiad i'r Grŵp Rheoli Asedau.***

***Yn y dyfodol, dylai aelodau lleol fod yn rhan o ymgynghoriadau ynghylch unrhyw gynigion arwyddocaol sy'n effeithio ar eu wardiau ac nid dim ond cael eu hysbysu ohonynt; a***

***(vii) yr angen i'r Grŵp Rheoli Asedau fod yn fwy agored, hygyrch a thryloyw i bob cynghorydd, yn arbennig gan mai dim ond un aelod etholedig sy'n aelod o'r Grŵp.***

Pleidleisiodd y Pwyllgor drwy fwyafrif ar gynnig y dylid dod ag adroddiad sy'n ymwneud â'r broses a'r safleoedd penodol hyn yn ôl i'w ystyried ymhellach ar ôl gweithredu argymhellion (i) i (v) uchod.

## 6 PROSIECT ARCHIFAU AR Y CYD SIR DDINBYCH A SIR Y FFLINT

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau'r adroddiad ac atodiadau (eisoes wedi'u cylchredeg) a oedd yn darparu gwybodaeth ynglŷn â phrosiect ar y cyd ar gyfer archifau Sir Ddinbych a Sir y Fflint, gyda ffocws arbennig ar y model cyflenwi gwasanaeth newydd arfaethedig.

Yn ystod ei gyflwyniad pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol y byddai darparu Gwasanaeth Archifau ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint a datblygu gwasanaeth 'gweithredu trwy bwynt canolog', yn amodol ar gais llwyddiannus i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, yn fuddiol i drigolion Sir Ddinbych gan y byddai Gwasanaeth Archifau llawn amser ar gael yn hytrach na gwasanaeth tri diwrnod sydd ar gael yn y sir ar hyn o bryd. Byddai hynny'n wir er gwaethaf y ffaith bod y 'canolbwynt' yn yr Wyddgrug gan y byddai holl lyfrgelloedd Sir Ddinbych yn cael mynediad at gofnodion digidol y gwasanaeth felly byddai trigolion yn gallu gwneud unrhyw waith ymchwil o'u llyfrgell leol, yn hytrach na gorfod trefnu apwyntiad i ymweld ag Archifdy'r Sir yn Hen Garchar Rhuthun fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Pe baent eisiau cael gafael ar ddogfennau gwreiddiol, byddent yn gallu gwneud hyn o dan y model newydd trwy fynychu â'r canolbwynt yn yr Wyddgrug.

Oherwydd eu hoedran a'u bregusrwydd, roedd yn rhaid i ddogfennau'r archifdy gael eu cadw dan amodau amgylcheddol caeth er mwyn eu gwarchod a'u diogelu, fel arall byddai'r Gwasanaeth mewn perygl o golli ei statws achrediad archif. Roedd cynghorau Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn awyddus i ddatblygu Gwasanaeth Archifau ar y cyd gan fod Sir y Fflint eisoes wedi mynd y tu hwnt i'w gapasiti storio tra bod disgwyl i Sir Ddinbych fod mewn sefyllfa debyg erbyn 2021. Hefyd, roedd y System Rheoli Amgylcheddol yn Hen Garchar Rhuthun yn nesáu at ddiwedd ei oes a disgwylir i'r gost o'i newid fod yn sylweddol, felly dyna pam y teimlwyd y dylid ymchwilio i'r cyfle i ddarparu gwasanaeth ar y cyd, o bosibl mewn adeilad pwrpasol o'r radd flaenaf. Er bod y Gwasanaeth Archifau presennol yn mynd â 70% o adeilad yr Hen Garchar, roedd yn denu tua 800 o ymwelwyr y flwyddyn, gyda nifer ohonynt yn ail ymweliadau gan yr un bobl. Mewn cymhariaeth roedd y Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth yn denu oddeutu 11,000 o bobl y flwyddyn i'w gyfran o 30% o'r adeilad.

Pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol bod gan y Cyngor ymrwymiad eisoes i ddefnyddio'r Hen Garchar i ddarparu ei Wasanaeth Archifau tan 2025, pe bai'r model cyflenwi gwasanaeth o bwynt canolog yn dwyn ffrwyth, gan y byddai'n cymryd llawer iawn o amser i ddarparu'r prosiect hwn yn ei gyfanrwydd. Yn y cyfamser byddai'n ymchwilio'n frwd i ddulliau posibl o gynyddu ystod y gwasanaethau treftadaeth a allai gael eu darparu yno ar ôl i'r Gwasanaeth Archifau ymadael, ar y cyd â safleoedd treftadaeth eraill y Cyngor, h.y. Nantclwyd y Dre a sefydliadau allanol megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
Dywedodd yr Aelod Arweiniol wrth yr Aelodau bod Cyngor Tref Rhuthun wedi cofrestru siom nad oedd wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad ynghylch y cynnig hyd yma, ond pe bai'r prosiect yn dwyn ffrwyth ni fyddai'r Gwasanaeth yn gadael yr Hen Garchar tan 2025, felly teimlwyd ei bod braidd yn rhy gynnar i ymgynghori â Chyngor y Dref ar hyn o bryd. Y flaenoriaeth fyddai sicrhau £11.5m o grant Heritage Horizons gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Byddai angen i unrhyw gynnig

am swm mor sylweddol o arian fod ar gyfer prosiect arbennig a phwrpasol iawn. Dyna pam yr oedd Sir Ddinbych am weithio gyda Chyngor Sir y Fflint i adeiladu adeilad pwrpasol wrth ymyl Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug. Roedd y broses o wneud cais am y grant wedi dechrau gan fod y ddau awdurdod wedi cyflwyno eu datganiad o ddiddordeb ar y cyd mewn gwneud cais am grant Heritage Horizons Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar 18 Hydref. Erbyn mis Rhagfyr 2019 dylai'r Gronfa roi gwybod i'r cynghorau p'un a yw eu datganiad o ddiddordeb wedi cael ei dderbyn er mwyn mynd ymlaen i ail gam y broses sef datblygu cynnig prosiect manwl a chynllun i'w gyflwyno i'r Gronfa a fydd yn penderfynu wedyn a ddylai'r grant gael ei ddyfarnu i'r prosiect erbyn mis Rhagfyr 2020. Amcangyfrifwyd mai cost y prosiect fyddai £16,650,344 a byddai disgwyl i Sir Ddinbych gyfrannu ychydig dros £2m a Sir y Fflint £3m. Pe bai'r prosiect yn cael ei ddarparu, roedd yn hanfodol bod £11.5m o arian y Gronfa Dreftadaeth yn cael ei sicrhau, heb hwnnw ni fyddai modd i'r prosiect fynd yn ei flaen. Pe bai'r prosiect yn llwyddiannus ac yn cael ei ddarparu yn ei gyfanrwydd, er y byddai'r 'canolbwynt' yn Sir y Fflint, byddai'r holl gofnodion ar gael yn ddigidol i drigolion Sir Ddinbych yn eu llyfrgelloedd lleol. Byddai hefyd yn sicrhau'r Gwasanaeth am yr 20 mlynedd nesaf ac yn cynhyrchu incwm ychwanegol o ryw £12K y flwyddyn, yn lleihau'r angen i dalu am storfeydd masnachol i gadw cofnodion ac yn osgoi costau sylweddol sy'n gysylltiedig â newid y system rheoli amgylcheddol yn yr Hen Garchar.

Oherwydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ardal awdurdod lleol 'newydd', cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion bod llawer iawn o'i gofnodion cyn 1996 yn cael eu cadw yn yr Hen Garchar. Hefyd, roedd nifer o arteffactau o Sir Ddinbych yn cael eu cadw mewn storfeydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd. Byddai datblygu'r prosiect hwn yn cynnwys creu gofod arddangos pwrpasol sy'n golygu y gallem ofyn am ddychwelyd yr eitemau hyn i'w harddangos i'r cyhoedd. Roedd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion o'r farn bod y cyllid hwn sydd ar gael yn darparu cyfle prin iawn i'r ddau awdurdod lleol wneud cofnodion, dogfennau hanesyddol ac arteffactau yn hygyrch i'w holl drigolion a chreu darpariaeth allgymorth ragorol ar gyfer ysgolion a sefydliadau eraill i ymgymryd â gwaith ymchwil. Roedd hanes cymunedol yn rhan annatod o hunaniaeth yr ardal.
Gwahoddwyd aelodau lleol ardal Rhuthun i annerch y Pwyllgor ynglŷn â'u pryderon am y prosiect. Y prif bwyntiau a godwyd ganddynt oedd:

- nad oedd yr Asesiad o Les ar gyfer y prosiect arfaethedig, a oedd yn gyffredinol gadarnhaol, yn rhoi sylw digonol i'r effaith negyddol annisgwyl y gallai symud y Gwasanaeth i'r Wyddgrug ei gael ar economi Sir Ddinbych, yn enwedig Rhuthun.
- bod nifer fawr o'r rheiny sy'n mynychu'r Hen Garchar i ddefnyddio'r Gwasanaeth yn oedrannus ac felly byddent yn methu ag ymweld â'r cyfleuster yn yr Wyddgrug oherwydd diffyg cludiant cyhoeddus i'r lleoliad arfaethedig.
- yn eu barn nhw roedd y prosiect wedi cael ei ystyried mewn dull ynysig. Dylai'r cynnig gynnwys arfarniad opsiynau manwl i ehangu'r gwasanaethau presennol sydd ar gael yn yr Hen Garchar, trwy godi adeilad storio archifau pwrpasol yn y maes parcio y tu ôl i'r Hen Garchar. Trwy gael y Gwasanaeth Archifau a'r cyfleuster treftadaeth i gyd ar yr un safle yn yr Hen Garchar,

byddai cyfle i wneud y mwyaf o nifer yr ymwelwyr archifau a thwristiaeth yn y dref.

- bod poblogrwydd defnyddio archifau a chofnodion digidol mewn llyfrgelloedd yn faes anhysbys hyd yma, efallai na fyddai'n 'brofiad' y byddai archifwyr selog yn ei fwynhau.
- byddai symud y Gwasanaeth Archifau i'r Wyddgrug yn arwain at golli adnodd pwysig iawn arall yn ardal Rhuthun ac o ganlyniad byddai busnesau eraill yn y dref a'r ardal gyfagos yn dioddef gan fod haneswyr yn teithio o bell i wneud eu gwaith ymchwil yn yr Hen Garchar, gan aros mewn gwestai lleol a gwario arian yn yr ardal.
- bod nifer o grwpiau buddiant eisoes wedi cysylltu â chynghorwyr lleol i gofrestru eu pryderon am y cynnig i symud y Gwasanaeth.
- y dylai'r Cyngor edrych ar dyfu'r gwasanaethau sydd ar gael yn yr Hen Garchar trwy eu cysylltu ag asedau twristiaeth a threftadaeth amrywiol eraill yn yr ardal yn hytrach na'u symud i'r Gwasanaeth Archifau yn yr Wyddgrug.

Mewn ymateb i'r uchod, cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion:

- bod y Cyngor yn gwbl ymroddedig i barhau i ddarparu Gwasanaeth Archifau yn yr Hen Garchar tan 2025. Tan hynny byddai'n gweithio gyda Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth y Cyngor er mwyn sicrhau dyfodol yr adeilad trwy ddarparu mwy o arlwy'r Gwasanaeth hwnnw o'r cyfleuster ar ôl i'r Gwasanaethau Archifau symud allan;
- bod trafodaethau cynnar ar fin dechrau gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol gyda'r bwriad o archwilio opsiynau posibl ar gyfer y safle a'r ardal yn gyffredinol;
- bod y cynnig wedi cael ei drafod gyda'r AS a'r AC lleol ac roedd y ddau wedi cefnogi'r cynigion.
- pe bai'r cynnig i'r Gronfa Dreftadaeth yn llwyddiannus a phe bai'r adeilad canolbwynt pwrpasol yn yr Wyddgrug yn cael ei adeiladu, byddai costau rhedeg y Gwasanaeth Archifau yn gostwng yn sylweddol, byddai ei oriau agor yn cynyddu ac yn newid o'r gwasanaeth tri diwrnod presennol i wasanaeth chwe diwrnod ac yn gwella hygyrchedd i bawb trwy'r llyfrgelloedd.

  Nod y cynnig oedd darparu gwasanaeth gwell a mwy hygyrch nid ychwanegu at Theatr Clwyd. Byddai Canolbwynt yr Archifau yn adeilad ar wahân wrth ymyl y theatr ac nid rhan o adeilad y theatr, ond byddai cyfle i'r ddau sefydliad gydweithio er mwyn gwella gwasanaethau allgymorth, darparu cyfleusterau i staff ac ati.
- er bod Carchar Rhuthun yn gartref i lawer iawn o Archifau Sir Ddinbych, nid oedd pob un yn cael ei gadw yno, roedd rhai yn cael eu cadw mewn storfeydd ac eraill yn Archifdy Sir y Fflint ym Mhenarlâg ar hyn o bryd, oherwydd newidiadau mewn ffiniau sirol pan ad-drefnwyd y ddau lywodraeth leol.
- y Gwasanaethau Archifau mwyaf llwyddiannus yn y DU oedd y rheiny â darpariaeth gwasanaeth allgymorth, a dyna pam y ceisir datblygu gwasanaeth allgymorth gweithredol fel rhan o'r cynnig hwn er mwyn annog

unigolion, ysgolion, grwpiau cymunedol, cartrefi gofal ac ati i ddefnyddio’r gwasanaethau sydd ar gael.

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau’r Pwyllgor, gwnaeth yr Aelod Arweiniol a swyddogion:

- cytuno bod angen amlygu manteision sefydlu’r gwasanaeth gweithredu o bwynt canol i’r cyhoedd h.y. mynediad digidol, gwell hygyrchedd gan fod y cyfleuster ar agor 6 diwrnod yr wythnos yn hytrach na 3 diwrnod fel y sefyllfa bresennol, mwy o staff i gynorthwyo'r cyhoedd gyda'u gwaith ymchwil, mwy o ofod arddangos ar gyfer arteffactau hanesyddol ac ati.
- dweud mai dim ond pedwar prosiect yn y DU fyddai’n elwa o grant Heritage Horizons Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.
  Roedd disgwyl i gannoedd o brosiectau wneud cais am yr arian a oedd ar gael felly i fod yn llwyddiannus roedd angen i brosiectau fod yn arloesol, trawsnewidiol, cydweithredol ac anelu at fynd i’r afael â risg i dreftadaeth neu dirweddau a natur.
- cadarnhau na allai Sir Ddinbych gyda’i niferoedd staff a'i oriau agor cyfyngedig ddarparu gwasanaethau allgymorth ar hyn o bryd.
  Byddai’r cynnig hwn yn mynd i’r afael â’r diffyg hwnnw.
- dweud bod Llywodraeth Cymru (LlC) yn annog Gwasanaethau Archifau i weithio ar y cyd, ond hyd yma dim ond Sir Ddinbych a Sir y Fflint oedd yn dangos awydd i ddilyn y llwybr hwn
- cadarnhau bod cyfanswm o chwe safle wedi cael eu hystyried i ddechrau er mwyn datblygu 'canolbwynt' ond roedd y safle hwn wedi codi o'r broses ddethol fel y safle a ffefrir.
- dweud y byddai’r Gwasanaeth yn cael ei redeg ar y cyd gan Sir Ddinbych a Sir Y Fflint.
- cadarnhau mai’r nod yn y pen draw oedd dychwelyd yr holl arteffactau hanesyddol lleol a oedd yn cael eu storio mewn sefydliadau cenedlaethol ar hyn o bryd er mwyn galluogi trigolion ac ymwelwyr yr ardal i ddod i’w gweld a’u mwynhau.
- dweud bod yr holl ymdrechion yn mynd ar sicrhau cynnig llwyddiannus i gael grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar hyn o bryd. Nid oedd unrhyw 'Gynllun B’ yn bodoli ar hyn o bryd, a dylai’r canlyniad gyrraedd erbyn diwedd 2020. Er hynny, roedd trafodaethau ar y gweill gyda’r Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth a sefydliadau allanol er mwyn gwella’r arlwy yn yr Hen Garchar yn y dyfodol a fyddai o fudd i Rhuthun a'r ardal gyfagos; a
- cadarnhau y byddai sefydlu Gwasanaeth Archifau ar y cyd â Sir y Fflint yn digwydd ym mis Ebrill 2020.

Ar ddiwedd trafodaeth drylwyr pwysleisiodd Aelodau bod angen gwella cyfathrebu ac ymgynghori ag aelodau lleol ar faterion a oedd yn cael effaith ar eu wardiau a gofynnodd i’r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu drafod hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol. Penderfynodd y Pwyllgor:

***<u>Penderfynwyd:</u> - yn amodol ar y sylwadau uchod -***

***(i) cydnabod y cynnig i greu un Gwasanaeth Archifau a rennir gyda Chyngor Sir y Fflint, gan weithredu dros ddau safle i ddechrau (Rhuthun a Phenarlâg);***

***(ii) trwy fwyafrif i gefnogi bod y Gwasanaeth, yn amodol ar sicrhau arian gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, yn cael ei ddarparu trwy fodel gweithredu trwy bwynt canolog mewn adeilad newydd ger Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug a darparu gwasanaeth trwy gymysgedd o ddarpariaeth allgymorth gymunedol barhaol a dros dro;***

***(iii)bod opsiynau yn cael eu llunio ar gyfer defnyddio'r gofod gwag posibl yng Ngharchar Rhuthun os bydd y gwasanaeth archif sengl arfaethedig a chreu 'canolbwynt' yn mynd yn ei flaen, a bod yr opsiynau hynny'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor i'w hystyried yn ystod haf 2020; a***

***(iv)cadarnhau, fel rhan o'i ystyriaeth, ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad A).***

Pleidleisiodd dau aelod o'r Pwyllgor yn erbyn (ii) uchod, ond cafodd yr argymhelliad ei gynnal gan y mwyafrif.

**7 DYLUNIAD GWASANAETH GWASTRAFF AC AILGYLCHU NEWYDD ARFAETHEDIG**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Wastraff, Cludiant a'r Amgylchedd adroddiad y Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu ac atodiadau (eisoes wedi'u cylchredeg). Pwrpas hynny oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am sefyllfa ariannol ddiweddaraf y prosiect ynghyd â rhoi gwybodaeth am amserlenni a phrosiectau cysylltiedig. Yn ystod ei gyflwyniad dywedodd yr Aelod Arweiniol er bod Atodiad II yr adroddiad yn sôn y byddai amserlen darparu prosiect yn ymestyn hyd at 2022, cyfeiriai hyn at y flwyddyn ariannol 2021/22. Yn seiliedig ar y cynnydd hyd yma roedd ganddo bob ffydd y byddai'r gwasanaeth newydd yn weithredol erbyn mis Medi 2021.

Ar gais y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd darparodd y Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu fersiwn PowerPoint o Atodiad III i'r adroddiad a oedd yn darlunio gosodiad arfaethedig y Depo Canolog newydd a fyddai'n cael ei greu yn Ninbych. Rhoddodd drosolwg i'r Pwyllgor o'r gosodiad a swyddogaethau'r holl ardaloedd gwahanol a fyddai'n gynwysedig yn y safle chwe acer hwn a'r cyfyngiadau rheoliadol amgylcheddol, tân ac eraill y byddai'n rhaid cydymffurfio â nhw wrth eu dylunio a'u datblygu.

Mewn ymateb i gwestiynau aelodau fe wnaeth yr Aelod Arweiniol, Pennaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol a'r Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu:

- ddweud nad oedd unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud ynglŷn â dyluniad y cynwysyddion 'Trollibocs' a fyddai'n cael eu prynu a'u cyflwyno, gan fod nifer o gynhyrchwyr newydd wedi dod i'r farchnad yn ddiweddar.
- cadarnhau nad oedd y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref presennol yn ffurfio rhan o'r prosiect penodol hwn. Byddai unrhyw drafodaethau ynglŷn

â'u dyfodol yn rhan o broses arall. Roedd angen adnewyddu'r contract ar gyfer gweithredu'r canolfannau hyn ym mis Mawrth 2021 felly byddai ymarfer ail-dendro yn dechrau yn y dyfodol agos. Fel rhan o'r broses ail-dendro, roedd modd ymchwilio i ddulliau o gynhyrchu incwm, gan gynnwys rhai ar gyfer cyrff elusennol o werthu 'gwastraff' y cartref sydd o safon dda.

- dweud er gwaethaf y ffaith bod safle'r depo canolog arfaethedig yn arwynebedd chwech acer, ni fyddai'n ddigon mawr ar gyfer symud y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref bresennol yn Ninbych i'r un safle gan fod cynigion i gynnwys ardal i drin gwastraff priffyrdd ar safle'r depo canolog faes o law, yn amodol ar gymeradwyo achos busnes ar wahân.
- dweud bod rheoliadau amgylcheddol yn golygu mai'r unig ddeunydd gwastraff y gellid ei ddadlwytho yn yr awyr agored oedd gwydr, byddai'n rhaid i bob gwastraff arall gael ei ddadlwytho dan orchudd mewn adeiladau pwrpasol.
- cadarnhau y byddai angen i ardal y depo cyfan gydymffurfio â rheoliadau caeth o ran sŵn, arogl, llygredd a thân a byddai angen hawlenni gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) cyn dechrau rhai ymarferion trin gwastraff, yn arbennig y rheiny sy'n gysylltiedig â Cham 2 y prosiect – trin gwastraff priffyrdd.
- dweud o dan y system newydd ar gyfer casglu gwastraff y cartref, byddai gwastraff bwyd yn dal i gael ei gasglu ar yr un pryd â gwastraff arall ac yna byddai'n cael ei drosglwyddo o ddepo Dinbych i'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Bwyd yn Rhuallt.
- dweud, er bod lle i 90 o gerbydau yn y maes parcio i staff y depo arfaethedig, nid oedd y rhif hwn yn cymryd i ystyriaeth pobl a oedd eisoes yn rhannu ceir. Roedd yn Cyngor yn ymwybodol o'i ddyletswydd i ostwng allyriadau carbon a dyna pam y byddai nifer o bwyntiau gwefru cerbydau yn cael eu gosod yn y maes parcio ar gyfer cerbydau trydan. Hefyd ni fyddai staff y depo i gyd yn dechrau gweithio ar yr un amser a byddent yn amrywio rhwng 6am a 6.45am, gyda cherbydau casglu sbwriel yn gadael y depo o 6.30am ymlaen. Roedd y posibilrwydd o ddarparu cludiant i staff i'r gwaith ac adref wedi cael ei ystyried a gellid ymchwilio ymhellach i hyn. Byddai'r holl faterion yn ymwneud â chludiant ar y safle yn amodol ar asesiad priffyrdd a thrafnidiaeth fel rhan o'r broses ceisiadau cynllunio.
- cadarnhau nad oedd y safleoedd gwag ar Ystad Ddiwydiannol Colomendy ar hyn o bryd yn ddigon mawr ar gyfer safle'r depo arfaethedig. Hefyd roedd y Cyngor yn y broses o brynu rhywfaint o dir i greu pwynt mynediad addas ar gyfer y datblygiad ar hyn o bryd. Roedd manteision prynu'r llain penodol hwn o dir yn ddeublyg, byddai'n hwyluso datblygiad y depo newydd a hefyd yn rhyddhau dros 20 acer o dir datblygu a fyddai'n sicrhau dyfodol i nifer o fusnesau llwyddiannus ar Ystad Ddiwydiannol Colomendy trwy ddarparu lle iddyn nhw ehangu.
- cadarnhau bod gwerth ariannol 'gwastraff' yn eithriadol o isel ar hyn o bryd, ond roedd targedau a rheoliadau'r llywodraeth yn mynnu bod awdurdodau lleol yn ailgylchu a thrin mwy o wastraff ac yn gwneud llai o ddefnydd o safleoedd tirlenwi. Oherwydd bod y cyhoedd yn fwy ymwybodol o'r difrod y mae plastig a ddefnyddir unwaith yn ei wneud i'r amgylchedd a'r posibilrwydd y bydd y llywodraeth yn cyflwyno cynllun prynu a dychwelyd, roedd arferion pobl yn debygol o newid a gallai hynny arwain at ostwng cyfanswm y gwastraff plastig a gynhyrchir, ond mae'n bosibl y caiff hyn ei wrthwneud gan

gynnydd yn y boblogaeth.  Roedd trafodaethau ar y gweill rhwng llywodraeth ganolog ac awdurdodau lleol ar hyn o bryd ynglŷn â sut y gallai ALlau gyfalafu ar gyflwyniad cynllun prynu a dychwelyd.

- dweud bod llawer o safleoedd yn y sir wedi cael eu hystyried fel rhan o'r broses i leoli depo pwrpasol, roedd y lleoliad penodol hwn yn ganolog ac roedd yn hygyrch i bob rhan o'r sir.  Ymhen amser, efallai y byddai awdurdodau lleol cyfagos yn dymuno defnyddio cyfleuster pwrpasol Sir Ddinbych.

Gyda chaniatâd y Cadeirydd rhoddwyd cyfle i aelod o'r cyhoedd a oedd yn bresennol annerch y Pwyllgor ynglŷn â'i phryderon am y model gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu newydd.  Credai bod trigolion yn hoffi, yn gwerthfawrogi ac yn deall y gwasanaeth ailgylchu bin glas cymysg presennol a pryderai ynglŷn â sefydlogrwydd a pha mor hawdd fyddai'r system 'Trollibocs' i'w ddefnyddio, yn enwedig i drigolion anabl neu oedrannus.  Er ei bod wedi cael sicrhad yn ystod y drafodaeth na fyddai'r system newydd yn feichus o ran cost ychwanegol i drethdalwyr y Cyngor, gofynnodd i gynghorwyr y sir dynnu sylw pob preswylydd at y newidiadau a'r rhesymau y tu ôl iddyn nhw.
Mewn ymateb dywedodd swyddogion:

- bod amryw o ddulliau cyfathrebu wedi cael eu defnyddio er mwyn tynnu sylw preswylwyr at y newidiadau arfaethedig hyd yma, fel y gwelir yn y Cynllun Cyfathrebu yn Atodiad IV yr adroddiad, roedd y rhain yn cynnwys arolwg, sesiynau galw heibio, radio, datganiadau i'r wasg, gwefan y Cyngor a thudalennau cyfryngau cymdeithasol ac ati.
- un o fanteision y model gwastraff ac ailgylchu newydd arfaethedig oedd y byddai'n helpu i leihau'r pwysau presennol ar y gyllideb o dros £1m, a byddai hynny yn ei dro gobeithio yn helpu i reoli codiadau yn Nhreth y Cyngor yn y dyfodol a'u cadw'n îs na fyddent petai'r model gwasanaeth newydd ddim yn cael ei weithredu.  Y rheswm am hyn oedd y byddai'r model gwastraff newydd yn rhatach i'w redeg na'r model presennol.
- byddai Panel Dinasyddion y Cyngor yn gysylltiedig ag ymgysylltu ar y math o system 'Trollibocs' i'w brynu a'i gyflwyno.
- cydnabuwyd fod y system 'bin glas' cymysg yn boblogaidd gyda phreswylwyr a'i fod wedi ateb y diben, ond roedd gofynion llywodraeth ganolog yn newid ac roedd arferion ailgylchu preswylwyr yn gwella felly nid oedd y casgliad ailgylchu bob pythefnos yn ddigonol i ateb y galw bellach.  Byddai'r system Trollibocs yn cyflwyno casgliad ailgylchu wythnosol ac ni fyddai cost ychwanegol yn cael ei chodi ar aelwydydd a fyddai'n gofyn am gynwysyddion ailgylchu ychwanegol.

Cytunodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion gydag aelodau bod ymarfer monitro diweddar y Cyngor i nodi aelwydydd nad oeddent yn rhoi eu cadis ailgylchu bwyd oren allan i'w casglu yn rheolaidd wedi cael sylw helaeth yn y cyfryngau.  Roedd y gwaith monitro yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan y criwiau casglu ac roedd yn waith llafurddwys ac nid oedd bob amser yn gywir, dyna pam y penderfynwyd treialu technoleg newydd i fonitro cyfraddau casglu gwastraff bwyd.  Nod y dull hwn oedd helpu i addysgu preswylwyr am fanteision ailgylchu gwastraff bwyd a helpu i roi hwb i gyfraddau ailgylchu.  Byddai'r cyfnod treialu yn rhedeg mewn pedair ardal, gan gwmpasu tua 600 eiddo, rhwng mis Tachwedd 2019 ac o leiaf mis Mawrth 2020.  Amcangyfrifwyd bod oddeutu chwarter gwastraff gweddilliol y sir yn cynnwys

gwastraff bwyd, felly i ostwng y cyfanswm hwn roedd yn bwysig i'r Awdurdod ddeall pam fod rhai preswylwyr yn dal i beidio â defnyddio'r cynllun ailgylchu gwastraff bwyd a ddarperir. Y nod yn bennaf oedd addysgu pobl, roedd camau gorfodi yn ddewis olaf. Roedd darparu sachau ailddefnydd na allai anifeiliaid fynd i mewn iddyn nhw yn cael ei ystyried ar gyfer lleoedd fel safleoedd aml-aelwyd. Gellid gosod y sachau hyn mewn daliwr gwastraff bwyd cymunol mawr ar gyfer eu casglu.

Ar ddiwedd trafodaeth y Pwyllgor:

***Penderfynwyd:***

***(i) yn amodol ar yr arsylwadau uchod, cydnabod y cynnydd a wnaed hyd yma gan y Bwrdd Prosiect Gwastraff er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd yn cael ei ddarparu i drigolion o fis Medi 2021 ymlaen;***

***(ii) bod y Pennaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol yn dychwelyd i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y prosiectau peilot a oedd yn cael eu cynnal i gynyddu faint o wastraff ailgylchadwy sy'n cael ei gasglu ledled y sir, fel yr amlinellir yn Atodiad V; a***

***(iii) bod y Pennaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol yn dod ag adroddiad i'r Pwyllgor yn y dyfodol i gynnig rhoi'r Cynllun Gwireddu Buddion ar waith i fonitro buddion y model gweithredu gwastraff newydd i'r amgylchedd, cyllideb, gweithwyr a chwsmeriaid.***

## 8 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu (CC) adroddiad rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor ac atodiadau (eisoes wedi'u cylchredeg) er mwyn ceisio cael y Pwyllgor i adolygu ei raglen waith i'r dyfodol.

Atgoffodd y CC aelodau am y ffurflen cynnig craffu, dywedodd y dylid anfon unrhyw gynigion ati hi fel eu bod yn cael eu hystyried gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu i'w cynnwys ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol.

Yng nghyfarfod y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu ym mis Medi, cytunwyd aildrefnu'r rhaglen gwaith i'r dyfodol er mwyn gallu cynnwys yr eitemau ar ddarpariaeth safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a Phrosiect Archifau Sir Ddinbych a Sir y Fflint ar y cyd yn y cyfarfod presennol.

***PENDERFYNWYD:*** ***bod aelodau yn cytuno â rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor.***

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Nid oedd unrhyw adborth.

**Daeth y cyfarfod i ben am 2.25pm**